Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Sut rydym yn gwneud yng Nghymru?

## Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd am Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws

**Wythnos 46 (15fed i'r 21ain o Chwefror 2021)**

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Cefndir

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal arolwg ymgysylltu â’r cyhoedd dros y ffôn yn gofyn i aelodau o’r cyhoedd yng Nghymru sut mae coronafeirws a mesurau rheoli cysylltiedig yn effeithio ar eu hiechyd a’u lles.

Mae'r arolwg yn cyfweld tua 600 o unigolion a ddewiswyd ar hap bob yn ail wythnos. Mae'r wybodaeth a gesglir yn sail i'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiadau bob pythefnos. Caiff data arolwg eu haddasu i gynrychioli poblogaeth Cymru yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd.* Ar gyfer rhai cwestiynau, mae niferoedd cyfatebol o oedolion (18 oed a hŷn) ym mhoblogaeth Cymru yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â chyfrannau wedi’u haddasu.#

Mae'r arolwg yn cynnwys set o gwestiynau arferol a ofynnir bob wythnos arolwg, gyda chwestiynau eraill yn newid yn dibynnu ar faterion sy'n dod i'r amlwg.

Rydym yn diolch i bobl Cymru am roi o’u hamser gwerthfawr i gynorthwyo’r gwaith yma.



*Oni nodir yn wahanol. Oddi fewn i’r adroddiad, efallai na fydd y ffigyrau bob amser yn adio fyny i 100% oherwydd talgrynnu. #Wedi’i dalgrynnu i’r mil agosaf.

# Prif ganfyddiadau'r wythnos hon

Cafodd 600 o drigolion Cymru sydd yn 18 oed ac yn hŷn eu cyfweld yn ystod wythnos 46 o'r arolwg (15fed i'r 21ain o Chwefror 2021).

## 72%

o bobl yn dweud y byddent yn hapus i dderbyn lefelau isel o coronafeirws yn y gymuned pebai'n golygu y gallem ddychwelyd i'n ffordd arferol o fyw.

## 76%

o bobl yn dweud y byddent yn ei chael yn dderbyniol pebai marwolaethau o coronafeirws ar yr un lefel ag yr ydym fel arfer yn ei weld o'r ffliw.

## 54%

o bobl o'r farn y dylai coronafeirws fod y brif flaenoriaeth polisi ar gyfer 2021; i lawr o 63% yn ystod wythnos yr arolwg ddiwethaf*.

## 57%

o bobl yn credu bod cloeon cenedlaethol yn effeithiol iawn wrth atal lledaeniad coronafeirws; i fyny o 41% yn ystod yr wythnos diwethaf*.

## 18%

o bobl yn dweud eu bod yn "bryderus iawn" y gallent ddal coronafeirws; i lawr o 26% yn ystod wythnos yr arolwg diwethaf*.

## 48%

o bobl yn dweud fod eu hiechyd meddwl yn waeth nawr nag yr oedd yr adeg hon y llynedd; sy'n cyfateb i bron i 1.2 miliwn o oedolion.

## 90%

o bobl yn dweud y byddent eisiau (60%) neu eisioes wedi cael (30%) y brechiad coronafeirws; Dywedodd 8% na fyddent eisiau un a 2% yn ansicr.

## 61%

o bobl gyda plant yn eu cartref yn dweud eu bod yn y 7 diwrnod diwethaf wedi bod yn poeni "llawer" am les eu plant.

## 25%

o bobl yn dweud nad oeddent wedi ymarfer corff (am o leiaf 30 munud, digon i'w gwneud allan o wynt) yn ystod yr wythnos diwethaf; sy'n cyfateb i 621,000 o oedolion.


**1af i'r 7fed o Chwefror 2021.*

# Ynglŷn â coronafeirws

| | | |
|---|---|---|
| **Ydych chi'n meddwl fod ganddoch neu eich bod wedi cael coronafeirws?** | Do | 17% |
| | Ddim yn gwybod | 7% |
| **Ydych chi wedi cael eicg profi am glefyd coronafierws neu ydach chi wedi cael y prawf gwrthgyrff?** | Wedi cael prawf coronafeirws | 36% |
| | Wedi cael gwrthgyrff | 8% |
| **Pa mor bryderus ydych chi y gallech gael coronafeirws?** | Dim o gwbl | 21% |
| | Ychydig | 24% |
| | Gymedrol | 36% |
| | Hynod | 18% |

# Ynglŷn â coronafeirws

## Ar hyn o bryd, tua faint o bobl yng Nghymru ydych chi'n meddwl sydd wedi'u heintio gyda'r coronafeirws?





*Amcangyfrifodd Arolwg Heintiau COVID-19 SYG yn yr wythnos a ddaeth i ben ar 12 Chwefror 2021 (wythnos cyn yr arolwg hyn), fod 1 mewn 125 o fobl yng Nghymru gyda coronafeirws (bwlch credadwy o 95%: 1 o bob 150 i 1 o bob 105).

www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/bulletins/coronaviruscovid19infectionsurveypilot/previousReleases

# Gwybodaeth a chydymffurfio â’r cyfyngiadau

**Pa mor dda ydych chi’n teimlo eich bod yn deall y cyfyngiadau presennol sydd ar waith yng Nghymru i leihau lledaeniad coronafeirws?**





**Pa mor dda ydych chi’n teimlo eich bod yn deall y cyfyngiadau presennol sydd ar waith yng Nghymru i leihau lledaeniad coronafeirws?**

Dim o gwbl … Yn llwyr

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0% | 0% | <1% | <1% | 3% | <1% | 4% | 18% | 28% | 46% |


**Dwi’n credu fod y rhan fwyaf o bobl yn dilyn canllawiau cadw pellter cymdeithasol**



# Cadw pellter cymdeithasol

| | Dim | 1 - 2 | 3 - 10 | Mwy na 10 |
|---|---|---|---|---|
| Ar wahân i'r bobl yn eich cartref chi eich hun neu aelwyd estynedig a ganiateir, yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, faint o bobl eraill ydych chi wedi dod i gysylltiad agos â nhw, o fewn 1 metr? | 41% | 24% | 16% | 19% |
| Ar wahân i'r bobl yn eich cartref chi eich hun neu aelwyd estynedig a ganiateir, yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, faint o bobl sydd wedi dod i mewn i'ch tŷ? | 81% | 16% | 3% | <1% |
| Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, faint o dai pobl eraill rydych chi wedi bod ynddyn nhw – heb gynnwys tai aelwyd estynedig a ganiateir? | 86% | 13% | 1% | <1% |


Pan fyddwch gyda phobl o'r tu allan i'ch cartref neu aelwyd estynedig, fel ffrindiau neu gydweithwyr yn y gwaith, a ydych yn cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr…?





**Ddim yn cwrdd â phobl o'r tu allan i'r cartref*

# Canfyddiadau ar gyfyngiadau


## I ba raddau ydych chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu'r mesurau cloi cyfredol sydd ar waith yng Nghymru?




## Yn eich barn chi, pa mor effeithiol yw'r cloeon cenedlaethol ar atal lledaeniad coronafeirws?




## Pa un o'r ddau ddatganiad hyn ydych chi'n cytuno â nhw fwyaf?




Wythnos 46 (15fed i 21ain o Chwefror 2021)


# Canfyddiadau ar gyfyngiadau

## Pryd ydych chi'n meddwl y dylai'r canlynol ddigwydd?

| | Dylai fod yn digwydd eisioes | O fewn y 3 wythnos nesaf | Mewn mwy na 3 wythnos nesaf |
|---|---|---|---|
| Dylai pob siop allu agor | 7% | 32% | 60% |
| Dylai bwytai allu ailagor | 5% | 21% | 74% |
| Dylai tafarndai a bariau allu ail-agor | 3% | 13% | 84% |
| Dylai gweithwyr nad ydynt yn hanfodol allu ddychwelyd i'w gweithleoedd | 10% | 35% | 56% |
| Dylai pobl allu cwrdd â phobl o aelwydydd eraill | 8% | 25% | 67% |
| Dylai pobl allu teithio i ddefnyddio lleoedd awyr agored fel parciau a thraethau | 26% | 37% | 37% |

# Canfyddiadau ar gyfyngiadau


**Gan ddechrau o nawr, sawl mis o gyfanswm y clo (gyda'r holl ysgolion, siopa a gweithleoedd nad ydynt yn hanfodol ar gau) fyddech chi'n barod i ddioddef pe bai'n gwarantu y byddai gweddill y flwyddyn yn rhydd o'r feirws?**



# Brechu

## Pebaech yn cael cynnig y brechiad…


### A fyddech chi'n bersonol eisiau cael eich brechu?




*Eisioes wedi derbyn brechiad coronafeirws

*I'r rhai sydd gyda plant yn yr aelwyd**:*

### Fyddech chi eisiau i'ch plant gael eu brechu?





***Cyfyngedig i'r rhai â phlant sy'n byw ar yr aelwyd; ac eithrio'r rhai sy'n ymateb 'ddim yn berthnasol'; data heb ei pwyso.*

I'r rhai a ymatebodd 'na' neu 'ansicr' i fod eisiau cael eu brechu'n bersonol, gofynnwyd cwestiwn pen agored am eu rheswm dros yr ymateb hynny.

Roedd y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd yn ymwneud â diffyg ymddiriedaeth yn y brechlynnau oherwydd cyflymder eu datblygu a'u sgil-effeithiau anhysbys. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys: peidio â theimlo bod angen cael eu brechu oherwydd risg isel canfyddedig; gweld budd isel o frechu; heb ddigon o wybodaeth am y brechlynnau; â chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes megis alergeddau; wedi cael adweithiau gwael i frechlynnau yn y gorffennol; pryder am effeithiau ar ffrwythlondeb; wedi clywed am adweithiau andwyol i'r brechlynnau; a ddim yn cytuno â brechiadau yn gyffredinol.

# Sut ydym yn bihafio?

## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, sawl diwrnod wnaethoch chi adael eich cartref neu'ch gardd?





## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, sawl diwrnod wnaethoch chi adael eich cartref…

| | 0 diwrnod | 1-2 diwrnod | 3-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|---|---|
| …i weithio | 66% | 7% | 6% | 21% |
| …i siopa | 27% | 53% | 15% | 5% |
| …am resymau meddygol | 78% | 21% | 1% | <1% |
| …i ymarfer corff | 43% | 15% | 8% | 34% |
| …i gwrdd â teulu / ffrindiau | 84% | 13% | 1% | 1% |
| …i fwyta mewn caffi, tafarn neu fwyty | 100% | <1% | 0% | 0% |
| …am ddiod mewn tafarn neu far | 100% | 0% | 0% | 0% |

# Pa mor dda ydym ni'n ymdopi â choronafeirws?


## Ydych chi'n meddwl fod y cyfyngiadau sydd mewn lle i reoli coronafeirws yn…





| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Credaf fod Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r problemau a achoswyd gan y coronafeirws yn dda | 13% | 56% | 11% | 14% | 7% |
| Credaf fod Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r problemau a achoswyd gan y coronafeirws yn dda | 22% | 55% | 9% | 12% | 2% |
| Rwyf yn hyderus y gwnaiff yr heddlu ddefnyddio eu pwerau i gyfyngu ar symudiadau pobl yn synhwyrol | 15% | 56% | 11% | 13% | 5% |

# Ansawdd bywyd

## Yn gyffredinol, dros y 6 mis diwethaf, ydy'r clo a chyfyngiadau coronafeirws eraill wedi effeithio ar ansawdd eich bywyd?




## Yn gyffredinol, dros y 6 mis diwethaf, ydy poeni am ddal coronafeirws wedi gwaethygu ansawdd eich bywyd?



# Am beth ydym ni'n ei boeni?

## Dros yr wythnos ddiwethaf, i ba raddau mae'r materion canlynol wedi bod yn eich poeni chi?

| | Dim o gwbl | Ychydig | Llawer |
|---|---|---|---|
| Mynd yn ddifrifol wael gyda coronafeirws | 42% | 38% | 20% |
| Colli rhywun annwyl i'r feirws | 20% | 31% | 49% |
| Lles eich plant*#~ | 13% | 26% | 61% |
| Addysg eich plant*#~ | 11% | 26% | 63% |
| Colli'ch swydd neu fethu â dod o hyd i un#~ | 59% | 23% | 18% |
| Gwaith, hyd yn oed os yw'ch swydd yn ddiogel #~ | 52% | 27% | 20% |
| Eich materion ariannol | 59% | 24% | 17% |
| Mynd allan i fannau cyhoeddus# | 41% | 35% | 23% |
| Effeithiau Brexit | 54% | 27% | 20% |

*Yn gyfyngedig i'r rhai sydd â phlant sy'n byw ar yr aelwyd; ~Data heb eu pwysoli; #Ac eithrio'r rhai a ymatebodd 'ddim yn berthnasol'

Wythnos 46 (15fed i 21ain o Chwefror 2021)

# Beth sydd wedi newid?

## O'i gymharu â'r amser yma flwyddyn yn ôl, a fyddech chi'n dweud fod y canlynol wedi ei heffeithio …


| | Llawer gwell | Ychydig yn well | Yr un fath | Ychydig yn waeth (Gwaethygu) | Llawer gwaeth (Gwaethygu) | Nifer cyfatebol o oedolion yng Nghymru (Gwaethygu) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eich iechyd corfforol | 4% | 9% | 46% | 27% | 14% | 1,038,000 |
| Eich ffitrwydd corfforol | 4% | 10% | 38% | 29% | 18% | 1,198,000 |
| Eich iechyd meddwl | 1% | 4% | 47% | 33% | 15% | 1,199,000 |
| Eich iechyd deintyddol | 2% | 3% | 65% | 22% | 9% | 773,000 |
| Eich perthnasoedd teuluol | 6% | 9% | 59% | 18% | 9% | 675,000 |
| Eich perthnasoedd cymdeithasol | <1% | 3% | 30% | 37% | 29% | 1,682,000 |
| Eich sefyllfa ariannol | 3% | 12% | 61% | 15% | 8% | 590,000 |
| Eich rhagolygon cyflogaeth neu gwaith | 3% | 3% | 78% | 10% | 7% | 422,000 |

Wythnos 46 (15fed i 21ain o Chwefror 2021)


# Beth sydd wedi newid?

## O'i gymharu â'r amser yma y llynedd, a fyddech chi'n dweud fod y canlynol wedi lleihau, aros yr un fath neu gynyddu?


### Cyfanswm o alcohol rydych yn ei yfed




### Eich pryder am newid yn yr hinsawdd





### Eich pwysau



# Beth sydd wedi newid?

**Gan feddwl am gamau gweithredu a all helpu i leihau newid yn yr hinsawdd, megis ailgylchu, lleihau'r defnydd o ynni a gostwng y defnydd o nwyddau a bwydydd fel cig a llaeth, ers dechrau'r sefyllfa coronafirws, a fyddech yn dweud eich bod wedi bod yn byw:**



# Blaenoriaethu polisiau

O'r rhestr o feysydd polisi posib, pa flaenoriaethau fyddech chi'n eu blaenoriaethu'n gyntaf, ail a thrydydd ar gyfer 2021 yn eich barn chi?

| | Blaenoriaeth 1af | 2il Flaenoriaeth | 3ydd Blaenoriaeth | Wedi'i cynnwys yn y dair prif flaenoriaeth |
|---|---|---|---|---|
| Coronafeirws | 54% | 16% | 7% | 77% |
| Rhestr aros GIG | 19% | 22% | 19% | 59% |
| Addysg | 11% | 20% | 23% | 54% |
| Iechyd a lles | 7% | 18% | 20% | 46% |
| Diweithdra | 3% | 11% | 14% | 28% |
| Newid hinsawdd | 4% | 6% | 9% | 19% |
| Brexit | 2% | 7% | 7% | 17% |

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Edrych ymlaen

## Faint ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol ?

| | Cytuno | Anghytuno |
|---|---|---|
| Byddwn i raddau helaeth wedi dychwelyd i'n bywydau arferol erbyn yr haf | 32% | 68% |
| Bydd pobl yn gallu mynd dramor ar wyliau yr haf yma | 25% | 75% |
| Bydd pobl yn gallu mynd dramor ar wyliau yr haf yma | 71% | 29% |
| Bydd yr economi'n gwella'n gyflym o sioc coronafeirws | 33% | 67% |
| Bydd brechlynnau'n erbyn coronafeirws ond yn ateb dros dro gan y bydd y feirws yn parhau i newid | 62% | 38% |
| Byddwn dal i brofi achosion o coronafeirws yn y 2 i 3 mlynedd nesaf i ddod | 88% | 12% |
| Bydd gwisgo mygydau gwyneb o leiaf yn achlysurol yn ran o fywyd am flynyddoedd i ddod | 86% | 14% |
| Byddwn yn fodlon derbyn lefelau isel o coronafeirws yn y gymuned pebai'n golygu y gallem ddychwelyd i'n bywyd arferol | 72% | 28% |
| Wrth symud ymlaen, byddwn yn ei chael yn dderbyniol pebai marwolaethau o coronafeirws ar yr un lefelau ag a welwn fel arfer o'r ffliw | 76% | 24% |


Wythnos 46 (15fed i 21ain o Chwefror 2021)

# Sut oedd y flwyddyn?

Ar raddfa o 0 i 100, lle 0 yw'r gwaethaf y gallwch chi ei ddychmygu a 100 yw'r gorau y gallwch chi ei ddychmygu, sut fyddech chi'n sgorio:

| | 0 | 1-20 | 21-40 | 41-60 | 61-80 | 81-100 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y flwyddyn 2020 | 17% | 33% | 18% | 20% | 9% | 3% |
| Y flwyddyn 2019 | 1% | 4% | 5% | 10% | 40% | 41% |
| And beth ydych chi'n meddwl fydd y sgôr 2021? | 3% | 10% | 17% | 46% | 18% | 5% |

Sgoriau canolrif



# Sut ydym yn teimlo?

## Pa mor iach ydych chi'n ei deimlo heddiw?

0 = Ddim yn iach o gwbl — 10 = Iach iawn

| 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|
| 10% | 38% | 52% |

261,000 (0-3) — Nifer cyfatebol o oedolion yng Nghymru

## Pa mor hapus ydych chi'n ei deimlo heddiw?

0 = Ddim yn hapus o gwbl — 10 = Hapus iawn

| 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|
| 9% | 39% | 52% |

234,000 (0-3) — Nifer cyfatebol o oedolion yng Nghymru

## Pa mor bryderus ydych chi'n ei deimlo heddiw?

0 = Ddim yn bryderus o gwbl — 10 = Yn hynod o bryderus

| 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|
| 44% | 36% | 20% |

Nifer cyfatebol o oedolion yng Nghymru — 513,000 (7-10)

## Sawl diwrnod yn ystod yr wythnos diwethaf wnaethoch chi o leiaf 30 munud o ymarfer corff (digon i wneud i chi golli eich anadl)?

| 0 diwrnod | 1-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|
| 25% | 37% | 38% |

621,000 (0 diwrnod) — Nifer cyfatebol o oedolion yng Nghymru

# Sut ydym yn teimlo?

## Yn ystod yr wythnos diwethaf, pa mor aml ydych chi wedi teimlo'n....

| | Unig | Ynysig |
|---|---|---|
| Byth | 57% | 44% |
| Weithiau | 28% | 31% |
| Yn aml | 12% | 18% |
| Wastad | 3% | 7% |

Unig (Yn aml + Wastad) – Nifer cyfatebol o oedolion yng Nghymru: 368,000

Ynysig (Yn aml + Wastad) – Nifer cyfatebol o oedolion yng Nghymru: 636,000

## Dros yr wythnos ddiwethaf, i ba raddau mae'r materion canlynol wedi bod yn eich poeni?

| Eich iechyd a'ch lles meddyliol | |
|---|---|
| Dim o gwbl | 35% |
| Ychydig | 42% |
| Llawer | 23% |

Llawer – Nifer cyfatebol o oedolion yng Nghymru: 568,000

## Cyhoeddwyd Chwefror 12fed 2021

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being

phwwhocc.co.uk

@phwwhocc Phwwhocc

# Ymholiadau

**Datblygydd yr Arolwg**

Yr Athro Mark A Bellis

**Data a Dadansoddeg**

Yr Athro Karen Hughes

**Cymorth Dadansoddol**

Dr Freya Glendinning


**E-bost**
Ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk

**Ffôn**
02920 227744

**Wê**
icc.gig.cymru

**Polisi a Iechyd Rhyngwladol,
Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**

Llawr 5, Iechyd Cyhoeddus Cymru,
2 Capital Quarter,
Stryd Tyndall,
Caerdydd, CF10 4BZ


## Sut wyt ti?

Am wybodaeth cyffredinol ar sut i edrych ar ôl eich hunan, eich ffrindiau a’ch teulu yn ystod cyfyngiadau coronafeirws ymwelwch â:

**icc.gig.cymru/sut-wyt-ti**

